Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae HSE yn gwahardd pob dim dan haul

Y gwirionedd Cafwyd llawer o adroddiadau bod HSE, a'r gyfraith iechyd a diogelwch, yn gyfrifol am wahardd pob math o bethau. Er enghraifft, fflip fflops yn y gwaith, gwau mewn ysbytai, mabolgampau yn yr ysgol, ras nofio elusennol Nadolig a hyd yn oed teganau anwes ar lorïau lludw.

Mewn gwirionedd, ychydig iawn o bethau y mae HSE wedi'u gwahardd yn llwyr, heblaw am rai eithriadau peryglus iawn (ee asbestos sy'n lladd dros 4000 o bobl y flwyddyn). Mae HSE yn credu y dylai iechyd a diogelwch olygu cymryd camau ymarferol i reoli risgiau gwirioneddol, nid biwrocratiaeth sy'n arwain at wahardd gweithgareddau bob dydd.

Y tro nesaf y clywch am 'waharddiad', gwnewch yn siŵr ei fod yn wir.

HSE

Am ragor o wybodaeth ewch i www.hse.gov.uk/myth/index.htm

Rhif 18 Medi 2008